




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Datrys Anghydfodau yng Nghymru a Lloegr

Cais am Dystiolaeth

Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn dechrau ar 3 Awst 2021

Daw'r Cais hwn am Dystiolaeth i ben ar 31 Hydref 2021





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Datrys Anghydfodau yng Nghymru a Lloegr

Cais am Dystiolaeth

2021

Cais am dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/dispute-resolution-england-wales-call-for-evidence>

Ynglŷn â'r cais hwn am dystiolaeth

- I:** Pob parti â diddordeb, y farnwriaeth, y proffesiwn cyfreithiol, cyfryngwyr, academyddion, y sector cyngori, defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd – yn enwedig y rhai sydd wedi cael profiad o ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llysoedd.
- Hyd:** **O 03/08/21 tan 31/10/2021**
- Ymholiadau i sylw:** Dispute Resolution Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ
Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk
- Sut i ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 31 Hydref 2021 trwy'r arolwg neu anfonwch neges i gyfeiriad e-bost y Tîm Datrys Anghydfodau yn:
Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk
- Papur ymateb:** Bydd ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth yn cael ei gyhoeddi ar ddyddiad i'w gadarnhau.

Cynnwys

Rhagair	2
Cyflwyniad	4
Cwestiynau	10
Amdanoch chi	16
Manylion Cyswllt/Sut i ymateb	17
Egwyddorion ymgynghori	18

Rhagair



Y Gwir Anrhydeddus
Robert Buckland CF AS.
Arglwydd Ganghellor a'r
Ysgrifennydd Gwladol dros
Gyfiawnder



Yr Arglwydd Wolfson o
Dredegar CF, Is-ysgrifennydd
Gwladol Seneddol



Syr Geoffrey Vos, Meistr y
Rholiau a Phennaeth
Cyfiawnder Sifil



Syr Andrew McFarlane,
Llywydd yr Adran Deulu



Syr Keith Lindblom, Uwch
Lywydd y Tribiwnlysoedd

Eleni, gwelir 25 mlynedd ers adroddiad arloesol yr Arglwydd Woolf ar Fynediad at Gyfiawnder. Bwriad y newidiadau a argymhellodd, a ddaeth i rym yn Rheolau Trefniadaeth Sifil 2000, oedd galluogi achosion i gael eu cynnal yn gymesur a hyrwyddo'r defnydd o brotocolau cyn-gweithredu er mwyn sicrhau setliad buan, fel mai cyfreitha fyddai'r dewis olaf. Ers hynny, cyflwynwyd Cyfarfodydd Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) mewn achosion teulu yn 2014, a chafwyd cynlluniau tebyg yn y Tribiwnlysoedd. Yr amcan ym mhob achos fu cynyddu'r cyfle i ddatrys yn gynnar drwy gonsensws.

Chwarter canrif ar ôl adroddiad Woolf, mae ymgyfreitha'n dal yn bell o fod y dewis olaf ac mae gormod o achosion yn dal i fynd drwy broses y llys yn ddiangen. Mae'r ddarpariaeth o gynlluniau datrys anghydfodau yn dal yn anghyson, er bod datblygiadau i'w croesawu, gan gynnwys ystod eang o gynlluniau Ombwdsmon, gwasanaethau datrys anghydfodau preifat a phrosiectau gwerthuso niwtral cynnar barnwrol. Ond mae angen gwneud mwy eto i gynyddu'r nifer sy'n dewis opsiynau llai gwrthwynebol.

Mae'r hyn a ystyriwyd hyd yma fel dulliau "amgen" o ddatrys anghydfod angen eu prif ffrydio mewn prosesau ar-lein, ac o fewn diwylliant y system gyfreithiol, y rhai sy'n gweithio ynddi, a'r defnyddwyr a'r busnesau y mae'n eu gwasanaethu.

Gwelwyd cynnydd sylweddol eisoes drwy brosiect diwygio GLITEM gyda hawliadau arian sifil, iawndal, hawliadau meddiant, gorfodi, rhannau o'r tribiwnlysoedd, a cheisiadau teulu cyfraith gyhoeddus a phreifat yn symud ar-lein. Ond mae angen i ni adeiladu ar y cynnydd hwn, gan gynnwys defnyddio technolegau mwy arloesol gyda phroses datrys anghydfodau ar-lein integredig.

Wrth i ni ddod dros effaith y pandemig, rydym am wneud y system gyfiawnder yn fwy abl i ddatrys anghydfodau mewn ffyrdd mwy clyfar, gan gyfuno pyrth cyn-hawlio a phrosesau llys ag ymyriadau datrys integredig wedi'u cyfryngu.

Rydym yn rhannu ymrwymiad i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth gryfaf bosibl ar gyfer datblygu dull gweithredu o'r fath. Hoffem gael eich help i gyflawni hynny. Felly, rydym yn lansio'r cais hwn am dystiolaeth ac edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Geoffrey V

Adrian F. P. P. P.

Keith Lindholm

David Watson.

Robert Buckland ¹

¹ Mae gwaith Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn cynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer rhai siambrau/tribiwnlysoedd penodol. Mae'r Cais am Dystiolaeth wedi'i gyfyngu i Gymru a Lloegr am sawl rheswm, gan gynnwys y ffaith y bwriedir i swyddogaethau tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl mewn perthynas â'r Alban gael eu datganoli yn y dyfodol. Fodd bynnag, croesewir ymatebion gan bobl sydd wedi'u lleoli yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cyflwyniad

Am lawer gormod o amser, mae'r hyn a elwir yn ddulliau "amgen" i'r llys² wedi cael eu gweld fel ychwanegiad neu'n ffordd o dynnu sylw pobl sy'n ceisio datrys anghydfod. Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o anghydfodau eisoes yn cael sylw y tu allan i system y llys. Fodd bynnag, ar gyfer y rhai sydd yn y system neu ar fin dod oddi mewn iddi, rydym am sicrhau bod y math mwyaf priodol o ddatrysiad, nad yw efallai o fewn y llys, yn hygyrch.

Rydym am gefnogi pobl i ddatrys eu hanghydfod yn y modd mwyaf effeithiol heb roi mwy o adnoddau nag sydd raid – yn ariannol, yn ddeallusol ac yn emosiynol. Mae creu llwybrau mwy cymesur ac adeiladol at ddatrys yn osgoi'r angen i wario'r adnoddau hyn, gan arbed amser y defnyddiwr, yn ogystal â lleihau eu lefelau straen ar adeg sydd eisoes yn anodd.

Ein huchelgais yw prif ffrydio mecanweithiau datrys anghydfodau nad ydynt yn wrthwynebus, fel bod datrys anghytundebau, yn rhagweithiol ac yn adeiladol, yn dod yn norm. Nid mater o gyfeirio pobl oddi wrth ymgyfreitha yn unig yw hyn. Rydym am adeiladu system fwy cymesur drwy roi dewis llawnach, mwy integredig, o lwybrau i bobl er mwyn cael y canlyniadau gorau ar gyfer eu problem. Helpu pobl i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnyn nhw ar yr adeg iawn i ddatrys y broblem, gan ddod ag anghydfodau i ben yn brydlon heb yr angen am ymgyfreitha yn y llys mor aml. Fodd bynnag, bydd y llysoedd bob amser yn opsiwn sy'n agored i bawb; ac rydym yn cydnabod y bydd achosion bob amser lle mae angen i bobl fynd i'r llys.

Y Cais hwn am Dystiolaeth yw'r cam cyntaf ar y daith honno. Bydd eich ymatebion i'r ddogfen hon yn gwella ein sylfaen dystiolaeth er mwyn cyfrannu at ddatblygu ymyriadau polisi'r Llywodraeth.

Mae cwmpas y gwaith hwn yn cynnwys yr awdurdodaethau sifil, teulu a gweinyddol. Nid yw'r awdurdodaeth droseddol yn y cwmpas. Rydym yn cydnabod bod cynnwys a chymeriad eang ac amrywiol ar draws y meysydd hyn. Wrth gwrs, bydd gwahanol fathau o achosion yn cynnwys gwahanol faterion ac amgylchiadau y bydd angen eu hystyried yn fanwl wrth ddatblygu opsiynau polisi.

² Rydym yn defnyddio 'llys' i gyfeirio at lysoedd a thribiwnlysoedd oni nodir fel arall

Mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn gofyn am dystiolaeth gan bob parti sydd â diddordeb, y farnwriaeth, y proffesiwn cyfreithiol, cyfryngwyr a phobl eraill sy'n datrys anghydfodau, academyddion, y sector cynghori, defnyddwyr y llys. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn casglu tystiolaeth gan unigolion neu sefydliadau sydd â data i'w rannu ar y cwestiynau perthnasol; neu'r rheini sydd wedi cael profiad o ddatrys anghydfod o fewn system y llysoedd, a thu allan iddi, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu mecanweithiau datrys anghydfodau mwy effeithiol. Rydyn ni'n croesawu gwybodaeth ar y rheng flaen gydag enghreifftiau pendant.

Y mater dan sylw

Mae gwella'r broses datrys anghydfodau yn cynnig cyfleoedd i wella'r system gyfiawnder ar draws yr awdurdodaethau sifil, teulu a thribiwnlysoedd. Mae ymglyfreitha'n wrthwynebol a gall fod yn destun prosesau a rheolau amrywiol a manwl sy'n gallu creu proses gymhleth, sy'n ddrud ac yn cymryd llawer o amser. I lawer o bobl, efallai nad dyma'r ffordd fwyaf priodol o ddatrys eu hanghydfodau oherwydd y math o achos. Rydym am gefnogi partïon i ddefnyddio'r prosesau gorau i sicrhau bod anghydfodau'n cael eu datrys mewn modd amserol, cost-effeithiol, cymesur, sydd o ansawdd uchel ac y gellir eu gorfodi.

Ar ben hynny, mae pandemig Covid-19 wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y llysoedd a'r system gyfiawnder ehangach, a byddai cael mwy o bobl i allu datrys eu hanghydfodau heb orfod aros am lys yn golygu gostyngiad sylweddol yn y baich ar y system bresennol, gan sicrhau gwell canlyniadau i bartïon a chymdeithas yn gyffredinol.

Dengys astudiaethau anghenion cyfreithiol yr ymdrinnir â'r rhan fwyaf o broblemau cyfreithiol yn fuan, heb ymgysylltu â gwasanaethau cyfiawnder ffurfiol na'r llysoedd. Er gwaethaf hyn, cychwynnwyd dros 2 filiwn o achosion sifil yn y Llysoedd Sirol yn unig yn 2019, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ddyfarniadau "diofyn" nas amddiffynnwyd, a oedd yn caniatáu i gredydwyr wneud cais am orfodaeth. Cafodd bron i 300,000 o hawliadau eu hamddiffyn a chafodd y rhan fwyaf o'r rheini eu setlo neu eu tynnu'n ôl cyn y cam gwrandawriad (aeth ychydig o dan 65,000 o hawliadau i dreial yn 2019)³. Er bod y llysoedd yn cyflawni rôl hanfodol ar gyfer datrys llawer o anghydfodau, mae'r gyfradd gadael yma'n tynnu sylw at feysydd lle gellid delio â phroblemau mewn gwahanol ffyrdd. Mae tystiolaeth o arolygu defnyddwyr llysoedd sifil⁴ yn dangos y byddai'n well gan y mwyafrif osgoi llys a

³ <https://www.gov.uk/government/collections/civil-justice-statistics-quarterly>

⁴ [Arolwg Defnyddwyr Llysoedd Sifil \(2015\)](#)

gweld achos llys fel dewis olaf (68% yn gyffredinol: 57% ar gyfer hawlwr iawndal ond yn codi i 80% ac 81% ymhlith hawlwr arian a meddiant yn y drefn honno).

Mae'r rhaglen hon yn plethu â gwaith y Cyngor Cyfiawnder Sifil a gyhoeddodd ei adroddiad yn 2018⁵ ar Ddulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR), gan nodi argymhellion helaeth ar hyrwyddo ymwybyddiaeth o ADR, yn y cyhoedd, y proffesiynau a'r farnwriaeth yn gyffredinol; gwell rheoleiddio ar gyfer darparwyr gwasanaethau ADR; a ffurf ar gyfeirio awtomatig at ADR. Er bod ei gylch gorchwyl wedi'i gyfyngu i'r awdurdodaeth sifil, ceir cysondeb â'r system llysoedd teulu a'r tribiwnlysoedd. Cyhoeddodd y Cyngor Cyfiawnder Sifil ei adroddiad diweddaraf ar ADR ym mis Mehefin 2021⁶, yn dweud ei fod yn gydnaws ag Erthygl 6 ac yn dymuno gwneud rhai mathau o ADR yn orfodol mewn rhai amgylchiadau.

Mae cynlluniau newydd yn y llysoedd wedi'u rhoi ar waith mewn sawl awdurdodaeth, yn enwedig y gwasanaeth Hawliadau Arian Sifil Ar-lein sy'n integreiddio'r defnydd o wasanaeth cyfryngu Hawliadau Bach GLITEM ac sy'n treialu gwasanaeth cyfryngu optio allan ar gyfer achosion sifil gwerth isel. Cyflwynwyd cynlluniau peilot hefyd sy'n ymestyn cyfryngu i hawliadau sifil gwerth uwch. Yn yr awdurdodaeth teulu, mae bellach – yn y rhan fwyaf o achosion cyfraith breifat – yn ofyniad cyfreithiol i fynychu cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM) cyn gwneud cais i'r llys. Mae cyflwyno'r cynllun talebau cyfryngu i deuluoedd yn galluogi cyfraniad ariannol o hyd at £500 tuag at gostau cyfryngu i bartïon cymwys. Ar ben hynny, mae penodiad Datrys Anghydfod Ariannol wedi dod yn nodwedd sefydledig mewn achosion unioni materion ariannol priodasol ers dros ugain mlynedd ac wedi bod yn llwyddiannus dros ben, o ran helpu i setlo achosion heb wrandawriad sy'n cael ei wrthwynebu'n llawn. Mae'r porth Diwygio Anafiadau Atchwip, sy'n ceisio lleihau nifer a chost hawliadau am anafiadau atchwipio, wedi cyflwyno proses cyn-lllys newydd. Nod y Porth ar-lein hwn yw galluogi hawlwr a diffynyddion i setlo hawliadau heb fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol neu i fynd i'r llys. Model arall o ddatrys anghydfod yw defnyddio gwasanaeth cymodi buan ACAS ar gyfer anghydfodau yn y gweithle, a gyflwynwyd yn 2014, lle mae'n rhaid i unrhyw barti sy'n bwriadu cyflwyno cwyn i Dribiwnlys

⁵ <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2018/12/CJC-ADR-Report-FINAL-Dec-2018.pdf>

⁶ [Civil-Justice-Council-Compulsory-ADR-report.pdf \(judiciary.uk\)](#)

Cyflogaeth roi gwybod i ACAS, a fydd yn cynnig gwasanaeth cymodi cynnar am ddim iddynt yn lle llys.

Mae cwmpas y cais hwn am dystiolaeth yn cynnwys datrys anghydfod cyn y gwrandawriad ac mae'n cyd-fynd â'r canlyniadau craidd sy'n ganolog i'r Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol:⁷ i atal problemau pobl rhag gwaethygu a dargyfeirio pobl oddi wrth rannau o'r system gyfiawnder nad oes angen iddynt ryngweithio â nhw; annog y defnydd o dechnoleg ac arloesedd mewn ffyrdd sy'n sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar gymorth yn y ffordd sydd fwyaf addas iddynt; a pharhau i adeiladu sylfaen dystiolaeth i lywio ymyriadau polisi effeithiol. Mae'r ymarfer hwn hefyd yn adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r Adolygiad Ôl-weithredu yn Rhan 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, ac a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2019.

Byddwn yn adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn wrth i ni ystyried y newidiadau sydd eu hangen i symud tuag at system gyfannol o ddatrys anghydfod, un lle mae defnyddwyr yn cael eu cefnogi a'u cyfeirio at yr opsiwn datrys anghydfod sy'n iawn ar gyfer eu hamgylchiadau. Felly, bydd y dystiolaeth hon yn gyfraniad hollbwysig i'n gwaith yn y dyfodol.

Bydd canfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth ar gael ar ffurf gryno. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol neu adnabyddadwy ar gael nac yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill.

Drwy gydol y Cais hwn am Dystiolaeth, rydym yn cyfeirio at brosesau "datrys anghydfodau" fel rhai sy'n cwmpasu pob dull o ddatrys anghydfodau yn yr awdurdodaethau sifil, teulu a gweinyddol, ar wahân i ymglyfreitha. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gyfryngu, cymodi, cyflafareddu, cynlluniau Ombwdsmon a chyffelyb, boed hynny drwy blatfformau ar-lein neu gyda chymorth technoleg arall neu beidio. Nid ydym yn ceisio barn ar weithrediad y gwasanaeth llys, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â'r mathau eraill hyn o brosesau datrys y tu allan i'r llys.

⁷ [Cymorth Cyfreithiol: Y Ffordd Ymlaen \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk)

Mae hwn yn gais am dystiolaeth sy'n ymwneud â phrosesau Datrys Anghydfodau yng Nghymru a Lloegr.

Mae fersiwn Saesneg o'r papur ar gael yn:

<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/dispute-resolution-england-wales-call-for-evidence>

Mae copïau o'r cais am dystiolaeth yn cael eu hanfon at restr o sefydliadau sydd â diddordeb mewn Datrys Anghydfodau, sy'n syrthio i'r categorïau cyffredinol canlynol:

- Y farnwriaeth
- Y proffesiwn cyfreithiol
- Cyrff sy'n cynrychioli darparwyr Datrys Anghydfodau, gan gynnwys cyfryngwyr
- Academyddion
- Y Sector Cynghori
- Defnyddwyr y llysoedd a'r tribiwnlysoedd trwy gymdeithasau
- Arbenigwyr ym meysydd y Gyfraith a Thechnoleg

Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr nac yn gyfyngedig a byddem yn gwerthfawrogi petaech yn rhannu'r ymgynghoriad â sefydliadau eraill y credwch i fod â diddordeb yn y pwnc. Croesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â data am, diddordeb yn, neu sydd â barn am y pwnc a drafodir yn y cais am dystiolaeth hwn.

Cwestiynau

1. SBARDUNAU YMGYSYLLTU A SETLO

Bydd dealltwriaeth o'r hyn sy'n sbarduno ymgysylltu a setlo yn galluogi bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu datblygu, sy'n sicrhau mynediad at gyfiawnder mewn ffordd sy'n diwallu anghenion pobl orau. Mae'r dystiolaeth bresennol yn cyfeirio at gyfraddau setlo rhesymol ar gyfer cynlluniau datrys anghydfod cyn gwrandawriad.

1. Oes gennych chi dystiolaeth o sut mae nodweddion partiön a'r math o anghydfod yn effeithio ar gymhelliant ac ymgysylltiad i gymryd rhan mewn prosesau datrys anghydfod?
2. Oes gennych chi unrhyw brofiad neu dystiolaeth o'r mathau o gymhellion sy'n helpu i ysgogi partiön i gymryd rhan mewn prosesau datrys anghydfod? Oes gennych chi dystiolaeth o'r hyn nad yw'n gweithio?
3. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod dulliau gorfodol o ddatrys anghydfod, fel y Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM), yn gweithio'n dda pan fyddant yn rhan o broses y llys. A ydych yn cytuno? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
4. Mae dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhai cyfryngwyr, neu'r rheini sy'n darparu gwasanaethau cysylltiedig, yn teimlo nad ydynt yn gallu cyfeirio partiön at ffynonellau cymorth/gwybodaeth – fel y rhaglen wybodaeth i rieni sydd wedi gwahanu yn yr awdurdodaeth deulu – ac mae hyn yn rhwystr i broses datrys anghydfodau effeithiol. A ydych yn cytuno? Os felly, a ddylai cyfryngwyr allu cyfeirio partiön at ffynonellau eraill o gefnogaeth neu ymyriadau? Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.
5. A oes gennych dystiolaeth am y mathau o achosion lle mae'r nifer sy'n manteisio ar ddulliau datrys anghydfod yn isel, a'r llysoedd yw'r ffordd fwyaf priodol o ddatrys yn yr achosion hyn?
6. Yn eich profiad chi, ar ba bwynt yn natblygiad anghydfod y gellid targedu cymorth a gwybodaeth ychwanegol i gymell datrysiad y tu allan i'r llys? Pa fath o anghydfod sy'n berthnasol i'ch profiad chi?
7. A oes gennych unrhyw dystiolaeth am gamsyniadau cyffredin gan bartiön sy'n ymwneud â phrosesau datrys anghydfodau? A oes enghreifftiau o sut y gellir lliniaru'r rhain?

2. ANSAWDD A CHANLYNIADAU

Rydym am sicrhau bod y partïon yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r prosesau gorau. Yn ogystal â mesurau fel cyfraddau ymgysylltu/setlo a chanfyddiadau partïon, mae'n bwysig bod partïon yn cyflawni canlyniadau o safon h.y. gellir datrys problemau'n effeithiol, yn deg, a chyda chyn lleied o gost ac oedi â phosibl i bartïon.

8. A oes gennych dystiolaeth ynghylch a all prosesau datrys anghydfodau sicrhau gwell canlyniadau ai peidio o'i gymharu â'r rhai a gyflawnir drwy'r llysoedd?
9. A oes gennych dystiolaeth o le'r oedd setliadau a wnaethpwyd mewn prosesau datrys anghydfodau'n fwy neu'n llai tebygol o ddatrys y broblem yn llawn, a helpu i osgoi rhagor o broblemau yn y dyfodol?
10. Sut gallwn asesu ansawdd canlyniadau achosion ar draws gwahanol awdurdodaethau gan ddefnyddio mecanweithiau datrys anghydfodau, yn ôl mathau o achosion er enghraifft, ac ar gyfer yr unigolion a'r sefydliadau dan sylw?
11. Beth fyddai'n cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brosesau datrys anghydfodau? Pa effaith fyddai mwy o orfodaeth i ddatrys anghydfodau y tu allan i'r llys yn ei chael? Rhwch dystiolaeth i gefnogi eich safbwynt.
12. A oes gennych dystiolaeth o sut yr effeithir ar bartïon heb gynrychiolaeth mewn prosesau datrys anghydfodau, megis cyfryngu a chymodi?
13. Oes gennych chi dystiolaeth o effeithiau negyddol neu ganlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â chynlluniau datrys anghydfodau? Oes gennych chi dystiolaeth o sut cafodd y rhain eu lliniaru a sut?
14. Oes gennych dystiolaeth o ba mor aml y cydymffurfir â setliadau datrys anghydfodau, neu beidio? Mewn sefyllfaoedd lle na chydymffurfiwyd â'r cytundeb, sut datryswyd hynny?
15. A oes gennych chi unrhyw grynodedeb o wybodaeth reoli neu ddata arall (dienw) y byddech chi'n fodlon ei rannu am eich prosesau datrys anghydfodau a'ch canlyniadau? Gallai hyn gynnwys nifer yr apwyntiadau a'r setliadau, grwpiau cleientiaid, mathau o anghydfod, a chanlyniadau. Os atebwch oes, rhwch fanylion yr hyn sydd gennych ar gael ac efallai y byddwn yn cysylltu â chi.

3. DARPARWYR GWASANAETH DATRYS ANGHYDFODAU

Rydym yn awyddus i gael gwell dealltwriaeth o'r gweithlu Datrys Anghydfodau a sut maen nhw'n cael eu hyfforddi ar hyn o bryd, sut mae safonau gwaith yn cael eu monitro a sut mae ansawdd yn cael ei sicrhau i ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

16. Oes gennych chi dystiolaeth sy'n dangos a yw'r safonau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau effeithiol yn cael eu deall yn iawn?
17. Oes gennych chi dystiolaeth o effaith safon cymwysterau a hyfforddiant darparwyr gwasanaethau datrys anghydfodau ar gyfraddau setlo/canlyniadau?
18. Oes gennych chi dystiolaeth o sut mae fframweithiau trefn gwyno ar gyfer cyfryngwyr a darparwyr gwasanaeth datrys anghydfodau eraill yn cael eu defnyddio? Oes gennych dystiolaeth o effeithiolrwydd y fframweithiau trefn gwyno?
19. Ydych chi'n credu bod y mesurau diogelu angenrheidiol ar waith ar gyfer partïon (e.e. lle cafwyd camymddwyn proffesiynol) wrth ymgysylltu â gwasanaethau datrys anghydfodau?
20. Pa rôl sydd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i gyfryngwyr neu'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cysylltiedig, ac a ddylid safoni hyn?
21. Oes gennych dystiolaeth i ddangos a yw'r system bresennol yn ddigon tryloyw i alluogi partïon i wneud dewisiadau gwybodus am y math o wasanaeth a darparwr sy'n iawn iddyn nhw?

4. COSTAU/BUDDION ARIANNOL AC ECONOMAIDD SYSTEMAU DATRYS ANGHYDFODAU

Rydym yn awyddus i gael mwy o dystiolaeth ynghylch yr arbedion posibl mewn prosesau datrys anghydfodau. Rydym yn chwilio am dystiolaeth i'n helpu i ddeall y gwahaniaethau economaidd rhwng prosesau datrys anghydfodau.

22. Beth yw'r taliadau arferol i bartïon sy'n ceisio dulliau datrys anghydfod preifat? Sut mae hyn yn amrywio yn ôl mathau o achosion?
23. Oes gennych chi dystiolaeth o'r math o eithriadau rhag talu ffioedd sydd gan wahanol weithwyr proffesiynol sy'n datrys anghydfod?
24. Oes gennych chi dystiolaeth o effaith pris y ffioedd a godir ar gyfer y broses ddatrys?
25. Oes gennych unrhyw ddata ar werthuso effeithiolrwydd cost neu fel arall, o ran y prosesau datrys anghydfodau sy'n dangos arbedion i bartïon yn erbyn ymglyfreitha?

5. SEILWAITH TECHNOLEG

Mae gennym ddi-ddordeb mewn dysgu pa dystiolaeth sy'n llywio'r potensial i dechnoleg chwarae rhan fwy yn y broses o ddatrys anghydfodau.

Er ein bod yn ymwybodol o lawer o blatfformau domestig a rhyngwladol, rhaid i ni barhau i ddysgu o ddulliau newydd ac unigryw o dechnoleg ddigidol sy'n gallu cael gwared ar rwystrau i gymryd rhan, gwella profiad defnyddwyr, lleihau biwrocratiaeth a chostau, a gwella canlyniadau i bartïon yn y pen draw.

26. Oes gennych chi dystiolaeth o sut, ac i ba raddau mae technoleg wedi chwarae rôl effeithiol mewn prosesau datrys anghydfodau i ddinasyddion neu fusnesau?
27. Oes gennych dystiolaeth o effeithiolrwydd cymharol gwahanol dechnolegau i helpu i ddatrys anghydfodau? Beth sy'n gweithio'n dda ar gyfer gwahanol fathau o anghydfodau?
28. Oes gennych chi dystiolaeth o sut mae technoleg wedi achosi rhwystrau wrth ddatrys anghydfodau?
29. Oes gennych chi dystiolaeth o sut mae plattform datrys anghydfodau ar-lein wedi cael ei ddatblygu i barhau i gyd-fynd â datblygiadau technolegol?
30. Oes gennych chi dystiolaeth o'r modd mae ymyriadau datrys anghydfodau awtomataidd, fel y rhai sy'n cael eu harwain gan ddeallusrwydd artiffisial, wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus? Sut mae'r rhain wedi cael eu hadolygu a'u gwerthuso?

6. DYLETSWYDD CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS

Mae [Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#) yn gofyn i ni ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol bobl wrth lunio polisiau, darparu gwasanaethau ac mewn perthynas â'n gweithwyr ein hunain.

31. Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth ynghylch sut mae nodweddion gwarchoddedig a gwahaniaethau cymdeithasol-demograffig yn effeithio ar ryngweithio â phrosesau datrys anghydfodau?
32. Oes gennych unrhyw dystiolaeth am faterion sy'n gysylltiedig â gwahaniaethau, profiadau ac anghydraddoldebau ar lefel y boblogaeth y dylid eu hystyried?

7. TYSTIOLAETH YCHWANEGOL

A fydddech cystal â rhannu dystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â datrys anghydfod, nad yw wedi'i chynnwys yn y cwestiynau uchod, yr hoffech iddi gael ei hystyried fel rhan o'r Cais hwn am Dystiolaeth.

Diolch i chi am gymryd rhan yn y cais hwn am dystiolaeth.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun, gan gynnwys eich profiad o ddatrys anghydfod.

Enw llawn	
Teitl y swydd neu'r modd yr ydych yn ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Profiad o ddatrys anghydfod, os o gwbl:	
<hr/>	
<hr/>	
<hr/>	
<hr/>	
<hr/>	
<hr/>	
<hr/>	

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r mudiadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb. **Os ydych chi'n cynrychioli grŵp**, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r mudiadau rydych yn eu cynrychioli.

Rhowch ragor o wybodaeth i ni am eich maes arbenigol:

Ticiwch i gadarnhau a ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi i gael trafodaeth ddilynol: YDW NAC YDW

Byddwn yn darparu ymateb awtomatig i gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb i'r Cais am Dystiolaeth.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 30 Hydref 2021

E-bost: Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses Cais am Dystiolaeth, dylech gysylltu â'r Tîm Datrys Anghydfodau ar y cyfeiriad isod
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

E-bost: Disputeresolution.enquiries.evidence@justice.gov.uk

Gellir lawrlwytho rhagor o gopiâu papur yn:

<https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/dispute-resolution-england-wales-call-for-evidence>

Cyhoeddi ymateb

Efallai y byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac efallai y byddwn hefyd yn cwrdd â chyfranogwyr sydd â diddordeb er mwyn ymgysylltu ymhellach, i gyfrannu at ddatblygiad y gwaith hwn.

Cyfrinachedd a Diogelu Data

Gall gwybodaeth a ddarperir wrth ymateb i'r Cais hwn am Dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi, ei rhyddhau neu ei datgelu i bartïon eraill, yn unol â gweithdrefnau mynediad at wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, gan gynnwys data personol, rhaid i ni eich atgoffa bod y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cynnwys Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG chi, ynndo'i hun, yn un sy'n rhwymo'r Adran.

Mae Llywodraeth yn credu ei bod yn bwysig er mwyn sicrhau tryloywder fod y cyhoedd yn gallu gweld pwy sydd wedi ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth a beth yw eu barn. Yn ogystal â hyn, gall yr Adran ddewis peidio â thynnu'ch enw/manylion o'ch ymateb yn ddiweddarach, er enghraifft, os ydych yn newid eich meddwl neu'n ceisio cael eich 'anghofio' o dan ddeddfwriaeth diogelu data, os bydd yr Adran o'r farn ei bod er budd y cyhoedd o hyd i'r manylion hynny fod ar gael i'r cyhoedd. Os nad ydych chi am i'ch enw/manylion corfforaethol gael eu datgelu fel hyn, yna fe'ch cynghorir i ymateb yn ddienw (er enghraifft fel 'darparwr gwasanaeth', 'aelod o'r cyhoedd'). Fel arall, efallai byddwch chi'n dewis peidio ag ymateb o gwbl.



© **Hawlfraint y Goron 2019**

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i:
nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.